



Llywodraeth Cymru

Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Adroddiad Terfynol

Adroddiad gan Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2017

Paratowyd yr ymchwil hon ar gyfer Llywodraeth Cymru gan:

Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd, CF10 3WA

E-bost: planning.directorate@llyw.cymru

Gwefan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio: www.llyw.cymru/cynllunio

Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru

Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio
Prifysgol Caerdydd

Mehefin 2017

Awduron:

Brian Webb, Neil Harris, Crispin Cooper, Ian Harvey, ac Adrian Healy

Cynorthwyydd Ymchwil:

Nia Rees

Anfonwch unrhyw ymholiadau am yr adroddiad terfynol hwn at:

Dr. Brian Webb

Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio

Prifysgol Caerdydd

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd, CF10 3WA

WebbB1@caerdydd.ac.uk

Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau'r ymchwil i nodi ardaloedd rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Cyd-destun yr ymchwil
- Nodau ac amcanion yr ymchwil
- Ystyriaethau cysyniadol Rôl rhanbarthau mewn polisi cynllunio ar lefel genedlaethol
- Dulliau ymchwilio
- Crynodeb o'r ymgynghoriad rhanddeiliaid ar-lein
- Setiau data a phwysoliadau
- Rhanbarthau fesul Nod Llesiant
- Ffiniau rhanbarthol arfaethedig terfynol ac asesu
- Atodiad 1: Adroddiad ymgynghori rhanddeiliaid (Saesneg gyda'r holl ymatebion)
- Atodiad 2: Adroddiad ymgynghori rhanddeiliaid (Cymraeg gyda'r holl ymatebion)
- Atodiad 3: Setiau data a phwysoliadau posibl
- Atodiad 4: Setiau data, ffynonellau a phwysoliadau a ddefnyddiwyd

1 Cyd-destun yr ymchwil

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- 1.1. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn awgrymu newidiadau eang i'r system gynllunio er mwyn darparu datblygiad priodol ac atebol ledled Cymru. Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod angen i ddatblygiadau defnydd tir fynd i'r afael â phryderon cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar draws amrywiaeth o weithgareddau, diddordebau a swyddogaethau.
- 1.2. Mae'r Ddeddf yn rhoi gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a diweddarau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Er nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar yr hyn y bydd y FfDC yn ei gynnwys nac amrywiaeth a chwmpas ei bolisiau, gallai gyflawni nifer o rolau, gan gynnwys gosod blaenoriaethau defnydd tir Llywodraeth Cymru a darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Gallai'r FfDC hefyd ganolbwyntio ar faterion datblygu a defnydd tir o bwys cenedlaethol y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt a'u darparu. Mae gwaith rhagarweiniol ar y FfDC wedi dechrau yn Llywodraeth Cymru, yn arbennig mewn perthynas ag ymgynghori a chasglu tystiolaeth.

Cyd-destun Rhanbarthol a Phwysigrwydd Cenedlaethol

- 1.3. Datblygwyd Cynllun Gofodol Cymru (CGC), rhagflaenydd i'r fframwaith sy'n mynd i'r afael â materion cenedlaethol a rhanbarthol tebyg, ar ddechrau'r 2000au, ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2008 ar sail cynllunio cenedlaethol, hirdymor. Bydd CGC yn debygol o barhau i ddylanwadu ar drafodaethau ynghylch y FfDC o ystyried ei safle blaenorol fel dogfen o weledigaeth strategol. Roedd CGC yn cynnwys pwyslais cryf ar ardaloedd is-genedlaethol yng Nghymru ac felly mae'n debygol y ceir trafodaeth ar rôl rhanbarthau yn y FfDC.
- 1.4. Byddai felly yn ddoeth ymchwilio i'r posibilrwydd o gwmpas rhanbarthol i'r FfDC, a phroblemau cysylltiedig, er mwyn fframio ymgynghoriad ac arferion polisi'r dyfodol. At hynny, mae angen ystyried p'un a ddylai'r FfDC gynnwys deunydd rhanbarthol yn cwmpasu

pob rhan o Gymru, neu hyd yn oed ardaloedd ddetholus, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar faterion cenedlaethol yn unig. Mae math y cynnwys rhanbarthol hefyd yn dod yn bwysig, yn amrywio o drosolwg strategol i sylw rhanbarthol manylach.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.5. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni eu dyletswyddau mewn modd cynaliadwy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi a datrys problemau yn rhagweithiol, cynllunio ar gyfer yr hirdymor, a chydlynu gweithgareddau drwy bartneriaeth â chyrff cyhoeddus, cymunedau a phobl eraill.
- 1.6. Mae'r Ddeddf yn nodi saith Nod Llesiant i lywio gweledigaeth a rennir ar gyfer y wlad. Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag at gyflawni pob un o'r saith nod. Yng nghyd-destun y gwaith casglu data ar gyfer yr ymchwil hwn, mae'r saith nod yn cynnig cyfeiriad a diben, gan helpu i fframio'r math o ddata i'w gasglu a sut y caiff y ffiniau rhanbarthol eu diffinio. Yn awr, trafodir perthynas pob nod â'r ymchwil.
- 1.7. *Cymru Lewyrchus*: yn canolbwyntio ar ddata yn ymwneud â thwf economaidd, arloesedd a datblygiad carbon isel. Ymysg yr ystyriaethau allweddol mae ffiniau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd economaidd swyddogaethol, bargeinion dinesig, marchnadoedd tai, incwm, clystyru a gweithgareddau diwydiant ynghyd â newid yn yr hinsawdd. Bydd yr ardaloedd rhanbarthol a nodir yn ceisio sicrhau bod gan bob rhan o Gymru sylfaen cadarn ar gyfer datblygu cynaliadwy a llwyddiant economaidd.
- 1.8. *Cymru Gydnerth*: yn cynnwys agweddau ar fioamrywiaeth a chadernid. Mae'r data'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol, y rhyngweithio rhwng pobl ac ecosystemau, a'r posibilrwydd o addasu i newid yn yr hinsawdd. Lle y bo'n bosibl, mae'r ardaloedd rhanbarthol a nodir yn ceisio cynnal amgylcheddau naturiol a ddiogelir a sicrhau bod pob rhanbarth yn amgylcheddol amrywiol.
- 1.9. *Cymru Iachach*: yn defnyddio data yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd a hamdden i sicrhau bod ffiniau rhanbarthol yn diogelu lles corfforol a meddyliol nawr ac yn y dyfodol. Manteisir ar fynediad i ofal iechyd, manau gwyrdd a chyfleoedd hamdden i helpu i adeiladu ardaloedd rhanbarthol tra bod data ar gyfraddau marwolaeth, salwch a gweithgarwch corfforol, ynghyd â ffiniau darparu gofal iechyd, yn cael eu hystyried i ddeall ansawdd gwasanaeth a mynediad er mwyn cydbwysu gofal hirdymor o fewn rhanbarthau posibl.
- 1.10. *Cymru sy'n Fwy Cyfartal*: yn ystyried sut y gallai adeiladu ardaloedd rhanbarthol effeithio ar botensial economaidd-gymdeithasol y rheini sy'n byw ynddynt. Un o'r egwyddorion allweddol yw sicrhau bod ffiniau ardaloedd rhanbarthol yn cwmpasu ardal sy'n ddigon mawr i gydbwysu perfformiad gwael o ran dangosyddion economaidd-gymdeithasol, megis amddifadedd materol, â'r rheini sy'n cyflawni lefelau perfformiad uwch.
- 1.11. *Cymru o Gymunedau Cydlynus*: yn ystyried rôl seilwaith o ran cynnal mynediad o fewn a rhwng cymunedau wrth adeiladu ardaloedd rhanbarthol. Ystyrir hyfywedd rhanbarthau drwy ddefnyddio data demograffig a dosbarthiadau ardal. Ystyrir pellteroedd i ganolfannau poblogaeth i ddeall cysylltiadau rhwng lleoedd mewn cyfuniad â gwasanaeth sy'n gysylltiedig â throsedd a diogelwch.
- 1.12. *Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu*: yn ceisio diogelu ardaloedd o Gymru lle mae canran fawr o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, sicrhau mynediad i dreftadaeth a'r celfyddydau, a sicrhau yr ystyrir nodweddion demograffig-gymdeithasol ardaloedd.
- 1.13. *Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang*: un elfen allweddol sy'n gysylltiedig â'r nod hwn yw'r diffiniad o ardal rhanbarthol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, gwastraff, a rôl ynni

adnewyddadwy, yr ystyrir ei botensial ar gyfer pob rhanbarth arfaethedig er mwyn ceisio sicrhau y gellir cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer holl ranbarthau Cymru ac y gellir rheoli gwastraff yn briodol.

- 1.14. Mae 46 o ddangosyddion cenedlaethol wedi'u datblygu mewn perthynas â'r nodau Llesiant i fonitro cynnydd. Er nad oes gan bob dangosydd ddimensiwn gofodol, mae'r rhai sydd â dimensiwn gofodol y mae'r data ar gael ar eu cyfer wedi'u cynnwys yn yr asesiad o ddata posibl a nodir yn Adran 7 yr adroddiad hwn.

2. Nodau ac amcanion yr ymchwil

- 2.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd y FfDC yn:

nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwys cenedlaethol a sut gall y system gynllunio - yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol - gyflawni hyn;

darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi'r broses o bennu Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol;

eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru, gan barhau i ddarparu cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;

cefnogi strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

- 2.2. Felly, nod y prosiect ymchwil hwn yw profi priodoldeb y FfDC i nodi rhanbarthau ledled Cymru at y diben o ddarparu a) cyd-destun ar gyfer seilwaith, twf a phrosiectau cenedlaethol a b) fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio a llunio cynlluniau o fewn y rhanbarthau hynny, ac i archwilio dewisiadau amgen posibl.

- 2.3. Nodwyd y pedwar amcan ymchwil rhyng-gysylltiedig canlynol:

- (a) Asesu priodoldeb y dull a ddatblygwyd i nodi Ardaloedd Cynllunio Strategol (ACS) yng Nghymru ar gyfer nodi ffiniau rhanbarthol y FfDC a'u haddasu fel y bo'n briodol.
- (b) Cael mewnbwn gan randdeiliaid ar y themâu a'r data i'w defnyddio i nodi ffiniau rhanbarthol y FfDC a phriodoldeb cyfoes rhanbarthau CGC.
- (c) Defnyddio'r dull a ddatblygwyd drwy Rannau (a) a (b) i nodi ardaloedd rhanbarthol FfDC nodedig yng nghyd-destun saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- (d) Archwilio dilysrwydd y rhanbarthau CGC mewn perthynas â'r ffiniau rhanbarthol FfDC a nodwyd.

3. Ystyriaethau cysyniadol Rôl rhanbarthau mewn polisi cynllunio ar lefel genedlaethol

- 3.1. Dros y degawdau diwethaf, mae rôl newydd wedi dod i'r amlwg ar lefelau is-ranbarthol ac is-genedlaethol i hyrwyddo cystadleurwydd economaidd, diogelwch amgylcheddol ac integreiddio sectoraidd, gyda blaenoriaethau penodol mewn rheoleiddio buddsoddi, cadwraeth, seilwaith a defnydd tir. Mae graddfeydd rhanbarthol yn cael eu hyrwyddo'n nodweddiadol i gynyddu cydweithrediad a hyrwyddo perthnasau gwell rhwng dinasoedd, ardaloedd gwledig a rhanbarthau eraill ar faterion fel economeg, defnydd tir a pholisiâu trafnidiaeth. Mae datblygiad rhanbarthau mwy lluosganolog hefyd wedi bod yn nod allweddol mewn sawl awdurdodaeth fel ffordd o reoli twf, hyrwyddo cydraddoldeb a gwella cydlyniant ar lefel leol rhwng awdurdodaethau.

- 3.2. Mae yna nifer o ddulliau traddodiadol o ddiffinio rhanbarthau. Ymysg y rhain mae'r dull haenau sy'n rhannu agweddau ar ranbarth yn gydrannau gwahanol sy'n cynnwys yr is-stratwm - nodweddion amgylcheddol y rhanbarth; rhwydweithiau - ffyrdd, rheilffyrdd a dyfrffyrdd cenedlaethol, ynghyd â phorthladdoedd a meysydd awyr; a galwedigaethau - faint o deithio sy'n digwydd rhwng ardaloedd preswyl, parciau busnes, ardaloedd siopa, gwasanaethau a chyfleusterau mewn trefi a phentrefi. Defnyddiwyd y dull hwn i ymchwilio i faint posibl rhanbarth.
- 3.3. Mae un o'r dulliau mwyaf hirsefydlog o ddiffinio ffiniau rhanbarthol yn seiliedig ar ddwystr y rhyngweithio rhwng ardaloedd gwahanol. Diffiniwyd y dull swyddogaethol hwn yn fras fel ardaloedd neu endidau lleoliadol sy'n rhyngweithio neu'n cysylltu'n fwy â'i gilydd nag ardaloedd allanol.
- 3.4. At ddibenion cynllunio, mae ardaloedd swyddogaethol fel arfer yn cael eu datblygu yn seiliedig ar ardaloedd teithio-i'r-gwaith a marchnadoedd tai. Mae dulliau mwy penodol wedi'u defnyddio hefyd i ddiffinio rhanbarthau, gan gynnwys data mudo, cadwyni cyflenwi ac, yn fwy diweddar, data traffig ffonau symudol.
- 3.5. Yn nodweddiadol, nid yw pwysigrwydd ardaloedd gwledig yn cael ei bwysleisio ddigon wrth ddiffinio a deall rhanbarthau. Mae dulliau cenedlaethol o'r brig i lawr yn dueddol o ganolbwyntio ar gystadleurwydd economaidd ac felly mewn perygl o ffafrio ardaloedd trefol dros ardaloedd gwledig.
- 3.6. Drwy'r dull hwn, yn aml ystyrir ardaloedd gwledig yn ardaloedd bwydo i'r rhai trefol, sy'n arwain at ddiffyg ymgysylltu a/neu ddiffyg dylanwad yn y broses o lunio polisi. Felly, mae'n bwysig ystyried y diffiniad o ffin yn ogystal â'r diben. Ymysg y cymhellion dros gynnwys rhanbarthau mewn cynllunio cenedlaethol mae hyrwyddo cydlyniant economaidd a chymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cystadleurwydd cytbwys a chreu partneriaethau gwledig-trefol newydd.
- 3.7. Ynghyd â dulliau traddodiadol, mae angen ystyried dulliau amgen o ddiffinio ffiniau rhanbarthol fel y rheini sy'n seiliedig ar swyddogaeth ecolegol, mynediad i wasanaethau, hamdden, iechyd, addysg, y defnydd o seilwaith a'i raddfa, neu berthnasau diwylliannol-gymdeithasol.
- 3.8. Mae hefyd yn bwysig ystyried mai adeiladweithiau gwleidyddol-gymdeithasol yw ffiniau mewn gwirionedd, a'u bod yn aml yn sefydliadol sefydledig. Gan eu bod yn cael eu pennu'n gymdeithasol, dadleuir drostynt yn aml, a gallai fod angen diffiniadau mwy amwys sy'n defnyddio ffiniau aneglur yn hytrach na rhai sydd wedi'u diffinio'n bendant.

Pa gyfraniad mae rhanbarthau yn ei wneud ar lefel genedlaethol?

- 3.9. Yn gyffredinol, mae rôl llywodraeth genedlaethol wedi newid o safle o awdurdod i safle galluogi sy'n sefydlu dylanwad newydd dros arferion cynllunio trefol ar lefel meta-llywodraethu. Yn gyffredinol, mae cynllunio cenedlaethol yn y DU wedi caniatáu ar gyfer arbenigo rolau o ran datblygu rhanbarthol a lleol.
- 3.10. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn y DU yn parhau i chwarae rôl allweddol fel sbardun strategol mewn perthynas â datblygu rhanbarthol a lleol, gydag amrywiadau yn lefel y pwyslais ar bolisi sy'n seiliedig ar le o gymharu â pholisi di-ofodol. Ond eto, mae pwysigrwydd asiantaethau cynllunio cenedlaethol o ran sicrhau llwyddiant prosiectau cynllunio rhanbarthol targedig a seilwaith wedi'i ddiystyru i raddau helaeth.
- 3.11. Mae rhanbarthau wedi darparu llwyfannau allweddol i ddatblygu safleoedd cyflogaeth a phreswyl strategol a ystyrir yn bwysig y tu hwnt i lefel leol ynghyd ag amcanion cenedlaethol o fuddsoddi diwydiannol a fforddiadwyedd tai, er enghraifft. Mae prosiectau

ynni ac adnoddau naturiol cenedlaethol mawr hefyd wedi'u datblygu drwy fframweithiau cydlynw rhanbarthol.

- 3.12. Mae datblygiad rhwydweithiau seilwaith cenedlaethol hefyd yn ffurfio cydran fawr o fentrau datblygu rhanbarthol. Yn aml mae rhwydweithiau o'r fath yn darparu'r amodau angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau busnes newydd a gwasanaethau cysylltiedig drwy wella hygyrchedd safle, rhwydweithiau logisteg, clystyru gwasanaethau ac ehangu cadwyni cyflenwi cenedlaethol a rhyngwladol.
- 3.13. Mae gwaith cynllunio cenedlaethol wedi gwneud defnydd o ranbarthau i weithio ar gyflawni nodau amgylcheddol drwy nodi a diogelu tirweddau naturiol, gan gynnwys gwahanfeydd dŵr, coedwigoedd, nodweddion daearegol yn ogystal â nodweddion morol ac arfordirol.
- 3.14. Mae rhanbarthau hefyd yn gweithredu fel modd o gydnabod cymeriad unigryw lleoliadau. Mae dull o'r fath yn caniatáu ar gyfer datblygu polisi wedi'i deilwra ac arbenigo rhanbarthol, ac yn creu amgylchedd mwy ffafriol ar gyfer arloesedd polisi. Felly, mae rhanbarthau'n gweithredu fel mecanweithiau defnyddiol i sicrhau y diogelir hunaniaethau diwylliannol unigryw rhanbarthau, p'un a yw hynny'n cael ei ddiffinio yn nhermau economi, iaith, amgylchedd neu nodweddion eraill.

Beth yw'r rhesymeg polisi dros ardaloedd rhanbarthol o fewn fframwaith datblygu cenedlaethol?


- 3.15. Mae datganoli yn y Deyrnas Unedig wedi caniatáu datblygiad polisi cynllunio ar lefel genedlaethol yn y gwledydd datganoledig. Mae hyn wedi arwain at ehangu cwmipas polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru, yn gyntaf drwy'r ddwy fersiwn o Gynllun Gofodol Cymru, ac yn ail drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a ddarparodd ar gyfer Ardaloedd Cynllunio Strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
- 3.16. Mae cymhellion amrywiol yn bodoli mewn perthynas â chynllunio ar lefel genedlaethol. Un o'r rhain yw hyrwyddo datblygiad rhanbarthol cytbwys a thaclo anghydraddoldeb. Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod dealltwriaeth o nodweddion ac anghenion penodol pob rhanbarth yn bwysig wrth ystyried gweithredu polisiâu sy'n benodol i ranbarth. Yng Nghymru, gwelwyd hyn eisoes wrth ddyrannu adnoddau yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad, lle ystyriwyd hygyrchedd a ffactorau diwylliannol yn flaenoriaethau allweddol.
- 3.17. Yn yr Iseldiroedd, un o'r cymhellion craidd dros gynllunio cenedlaethol yw i reoli twf tai drwy gydlynw seilwaith, cymorthdaliadau arbennig ar gyfer treuliau gweinyddol ac adeiladu, a grantiau ar gyfer cyfleusterau amlswyddogaethol mewn bwrdeistrefi lleol. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng twf cenedlaethol a datblygiad rhanbarthol yn y wlad.
- 3.18. Ochr yn ochr â pholisi cynllunio ar lefel genedlaethol, mae amrywiaeth o sectorau, adrannau ac asiantau yn chwarae rôl allweddol yn y broses o gynllunio cenedlaethol. Mae'r rhyngweithio rhwng asiantaethau ac adrannau gwahanol y llywodraeth yn gymhleth gan nad yw dulliau traddodiadol o gynllunio yn gallu cwmpasu'n ddigonol yr amrywiaeth o fuddiannau sy'n gorgyffwrdd. Gall rhanbarthau gael eu defnyddio fel mecanwaith i hyrwyddo cydlyniant polisi rhyngadrannol yn well, yn arbennig mewn perthynas â buddiannau polisi lleol a chenedlaethol sy'n gorgyffwrdd.
- 3.19. Gall dulliau cynhwysol o lywodraethu sy'n ymwneud â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol hefyd helpu gyda phenderfyniadau ynghylch targedu blaenoriaethau, rolau a chyfrifoldebau sectorau gwahanol. Mae deall rôl werthfawr y sectorau hyn yn allweddol wrth ddatblygu ystyriaethau gofodol yn y broses o wneud penderfyniadau a llunio polisiâu strategol.

4. Dulliau ymchwilio

Y dull methodolegol pum cam

- 4.1. Defnyddiodd yr ymchwil y dull methodolegol a ddatblygwyd drwy'r prosiect 'Archwilio methodoleg ar gyfer nodi Ardaloedd Cynllunio Strategol' a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru¹. Roedd adborth ar y dull yn gadarnhaol, a chyfeiriwyd yn benodol at yr hyblygrwydd a ddarparodd mewn perthynas â gweithredu. Er yr ystyriwyd camau lefel uchel y dull gweithredu yn briodol i amcanion yr ymchwil hwn, mae cydrannau penodol pob cam wedi'u haddasu i gydnabod y ddeinameg genedlaethol-ranbarthol sy'n rhan gynhenid o'r ymchwil yn ogystal â gallu mwy technegol yr ymchwilwyr i gyflawni dadansoddiad rhanbartholi ystadegol.

Ffigur 1: Y dull methodolegol pum cam



¹<http://gov.wales/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/strategic-planning-areas-research/?lang=cy>

Cam 5: Nodi'r ffin derfynol a gwiriad addasrwydd sefydliadol

Ystyried gweithrediad a derbynoldeb y ffiniau arfaethedig

4.2. **Cam 1: Cydgrynhoi cysyniadol** Mae'r cam sylfaen hwn yn sicrhau cyfeiriad a diben cyn casglu data. Gallai cam cysyniadol sy'n cael ei ddatblygu'n wael arwain at hap-gasgliad data nad yw'n caniatáu ar gyfer dynodi rhanbarthau'n gadarn. Yn ystod y cydgrynhoi cysyniadol gofynnir cwestiynau allweddol, ac yna defnyddir yr atebion i bennu'r data penodol y dylid ei gasglu. Dyma rai o'r cwestiynau cychwynol y ceisiodd y tîm ymchwil eu hateb ar y cam hwn:

- Beth sy'n gwneud rhanbarth?
- Pa gyfraniad mae rhanbarthau yn ei wneud ar lefel genedlaethol?
- Beth yw'r rhesymeg polisi dros ardaloedd rhanbarthol o fewn fframwaith datblygu cenedlaethol?

4.3. **Cam 2: Strwythuro dadansoddol** Nod y cam hwn yw nodi'r strwythur a'r gofynion ar gyfer datblygu ac asesu cydrannau allweddol y data. Amcan y cam hwn yw diffinio'r egwyddorion i'w defnyddio i lywio'r gwaith o ddadansoddi a dehongli'r data. Ystyriwyd y canlynol:

- Effeithiau a throthwyon rhyngweithiol
- Tymoroldeb
- Cysondeb a chymaroldeb
- Graddfa
- Canlyniadau'r ymgynghoriad ar-lein yn cael eu hintegreiddio i mewn i'r broses o ddewis data

4.4. **Cam 3: Nodi data** Mae'r cam hwn yn cynnwys nodi amrywiaeth eang o ddata i fesur y materion a nodwyd yng nghamau 1 a 2. Oherwydd natur falansiog cysyniadau polisi, ni all un set ddata gynrychioli mater yn ddigonol fel rheol, felly yn aml defnyddir setiau data procsi sy'n arwain at ddata amherffaith a'r angen i asesu gwerth y data a gasglwyd yn drylwyr. Ystyriwyd pum maen prawf sylfaenol:

- Argaeledd data
- Manyleb/graddfa ddaearyddol
- Rhagolygon cyfres-amser/oedran data
- Gweithredu a gweithrediad/cyflwyno data
- Dehongli a pherthnasedd

4.5. **Cam 4: Pwysoli, clystyru a mapio data** Mae'r pedwerydd cam yn cynnwys dadansoddi'r data a diffinio ffiniau rhanbarthol. Sicrhodd y broses ddadansoddi:

- Fod pwysoliadau amgen yn cael eu hystyried a'u cyfiawnhau
- Bod saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u hintegreiddio yn y dadansoddiad drwy greu mapiau yn seiliedig ar y nodau
- Bod data wedi'i glystyru drwy ranbartholi (gweler Adran 5.10 am fanylion am y dull hwn)
- Bod crynodeb tabl dadansoddol o'r data wedi'i ysgrifennu
- Crynodebau o ffiniau ac allbwn map terfynol

- Proses dryloyw
- Bod y ffin a ddewiswyd yn ddealladwy ac yn addas at y diben
- **Cam 5: Nodi'r ffin derfynol a gwiriad addasrwydd sefydliadol** Mae'r cam olaf hwn yn cynnwys dethol y ffiniau arfaethedig terfynol ar gyfer rhanbarthau'r FfDC. Gan ddefnyddio'r holl ddata a gasglwyd ar gyfer y mapiau troslun sy'n seiliedig ar y Nodau Llesiant a ddatblygwyd yng Ngham 4, cafodd y set ddata lawn ei chyfuno a'i rhanbartholi. Mae pwysigrwydd pob Nod Llesiant hefyd wedi'i bwysoli yn seiliedig ar yr arolwg rhanddeiliaid ar-lein (gweler Adran 6), a rhoddwyd ystyriaeth i:
 - Gynnwys ac eithrio ardaloedd drwy nodi is-ranbarthau i sicrhau nad yw rhai rhanbarthau yn cael eu ffafrio'n ormodol (er enghraifft, rhanbarthau sy'n cynnwys ardaloedd ffyniannus yn bennaf yn hytrach nag ardaloedd llai ffyniannus)
 - Ffiniau y mae rhan ohonynt yn croesi ffiniau Awdurdodau Unedig cyfagos
 - Y berthynas â ffiniau Awdurdodau Unedig a ffiniau sefydliadol eraill fel y rheini a gynigir yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol a rhanbarthau presennol/arfaethedig bargeinion dinesig
 - Rhwydweithiau seilwaith presennol a llifau cymudo
 - Dewisiadau amgen posibl i'r ffiniau rhanbarthol arfaethedig
 - Asesiad o addasrwydd ffiniau presennol CGC a'r rhai a gynigir drwy'r ymchwil hwn
- 4.6. Ystyriodd y dull uchod ddata ansoddol a meintiol. Yn awr, trafodir y mathau gwahanol o ddata.

Data ansoddol

- 4.7. Dylanwadwyd ar y cam cysyniadol ynghyd â'r camau casglu data ansoddol, pwysoli a dethol ffiniau terfynol gan ddadansoddiad ansoddol o lenyddiaeth berthnasol ar ryngweithiadau rhanbarthol/cenedlaethol a chymwyseddau rhanbarthol/cenedlaethol strategol posibl. Yn ogystal â'r adolygiad llenyddiaeth, roedd angen deall safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ynghylch rôl rhanbarthau o fewn y FfDC.
- 4.8. Datblygwyd arolwg ar-lein ac fe'i dosbarthwyd i lunwyr polisi allweddol ledled Cymru. Asesodd yr ymgynghoriad ar-lein yr ystyriaethau cysyniadol a nodwyd yng Ngham 1 o'r broses fethodolegol a helpodd i ddiffinio'r egwyddorion a ddefnyddiwyd i lywio'r dadansoddiad, fel graddfa ofodol y data i'w gasglu, p'un a yw'r data'n ystyried y dyfodol, a sut y gallai setiau data gwahanol gael eu pwysoli a'u cymharu. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cwestiynau ar y gwahaniaethau rhwng ffiniau amhendant a chadarn a phriodoldeb ffiniau CGC yng nghyd-destun y FfDC.
- 4.9. Edrychodd yr arolwg ar bwysoliadau posibl ar gyfer y setiau data amrywiol, gan ein galluogi i bennu pwysigrwydd elfennau penodol (uchel, canolig, isel) wrth lunio ffiniau rhanbarthol y FfDC.

Data meintiol

- 4.10. Mae nifer o ddangosyddion wedi'u haseinio i bob Nod Llesiant ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG); procsi defnyddiol ar gyfer cymdogaeth fawr. Nid oedd rhai dangosyddion ar gael ar y raddfa hon ac felly roedd angen eu trin yn ofalus, yn arbennig y rheini a gasglwyd ar lefel Awdurdod Unedol yn unig². Cafodd dangosyddion eu pwysoli yn

² Aseiniwyd yr un gwerth i ddata nad oedd ond ar gael ar lefel Awdurdod Unedol i bob AGEHG o fewn yr Awdurdod Unedol hwnnw.

seiliedig ar sylwadau dangosol o'r arolwg. Yna cafodd y dangosyddion a bwysolwyd eu clystyru'n ystadegol i chwilio am debygrwydd drwy broses a elwir yn rhanbartholi.

- 4.11. Rhanbartholi yw'r enw ar gyfer set o dechnegau ar gyfer diffinio ardaloedd mewn set ddata ofodol sydd (1) yn gyfagos yn ofodol, (2) mor debyg â phosibl yn fewnol mewn perthynas â'r data a fesurwyd. Defnyddiodd Openshaw a Rao³ anelio dynwaredol i gyflawni hyn ar ddata cyfrifiad y DU ar gyfer yr 20 o ranbarthau yng Nglannau Merswy, ond ar gyfer y 410 o AGEHGau yng Nghymru roedd y dechneg hon (a weithredwyd yn y pecyn Clusterpy) yn anymarferol o araf. Cynigiwyd algorithm cyflymach, SKATER, gan Assunção et al.⁴ ac fe'i defnyddiwyd yn Sao Paulo, ond mae'r feddalwedd yn hen (Terraview) a/neu nid yw'n caniatáu ar gyfer pwysoli amrywiadau a oedd yn angenrheidiol ar gyfer yr astudiaeth hon (ArcGIS Grouping Analysis). Gwnaeth Guo⁵ wella ymhellach ar SKATER gyda'r algorithm REDCAP, a dilyswyd y dull ar ranbarthau cyfrifiad yr Unol Daleithiau.
- 4.12. Defnyddiodd yr ymchwili hwn ddull clystyru cyswllt cyflawn cyfyngedig trefn-lawn Guo, sy'n uno'r ardaloedd tebycaf dro ar ôl tro i ddiffinio coeden sy'n gyfagos yn ofodol. Yna, rhennir y goeden drosodd a throsodd i gynhyrchu set o ranbarthau sydd mor homogenaidd â phosibl ar bob cam. Er mwyn gwneud defnydd o'r mathau data categorïaidd a pharhaus a nodwyd yn y prosiect hwn, ac i werthuso ansawdd yr allbwn, gwnaethom weithredu ein meddalwedd ein hunain i gyflawni'r rhanbartholi. Profwyd y feddalwedd hon yn erbyn meddalwedd REDCAP Guo, a chafwyd canlyniadau unfath ar gyfer y data parhaus.
- 4.13. Cafodd y data categorïaidd (nad oedd yn cael ei drin gan ddull Guo ar yr adeg yr ysgrifennwyd y ddogfen hon, er bod hyn ar ddod yn ôl y tebyg) ei ail-godio i set o amrywiadau ffug a gafodd eu normaleiddio wedyn gan wriad ffug-safonol ar gyfer y set:

$$pseudo\ sd = \sqrt{mean \left(\sum_{d \in D} (x_d - \bar{x}_d)^2 \right)}$$

Ile mae x_d yw gwerth yr amrywiad ffug d yn y set D, a $\bar{x}_d$ yw gwerth cymedrig yr un ffigur dros yr holl AGEHGau. Mae'r gwriad ffug-safonol yn mesur cyfraniad cyfartalog y set sy'n cynrychioli'r amrywiad categorïaidd at y pellter data rhwng unrhyw ddau bwynt. Mae hyn yn cyfochri'r dull cyffredin o normaleiddio amrywiadau parhaus yn ôl eu gwriad safonol.

- 4.14. Cafodd amrywiadau eu pwysoli yn ôl blaenoriaethau a nodwyd gan yr arolwg rhanddeiliaid ac ystyriaethau eraill a ddatblygwyd gan y tîm ymchwil, gyda'r gwerthoedd 1 = pwysigrwydd isel, 2 = pwysigrwydd canolig, 3 = pwysigrwydd uchel. Cafodd pob thema Llesiant hefyd ei phwysoli yn yr un modd, felly ar gyfer yr allbwn cyfunol cafodd pwysoliadau'r amrywiadau eu normaleiddio fesul thema, felly:

$$final\ weight = \frac{variable\ weight}{total\ weight\ for\ theme} \times theme\ weight$$

³ Openshaw, S, a L Rao. 1995. "Algorithms for Reengineering 1991 Census Geography." *Environment and Planning A* 27 (3): 425–46. doi:10.1068/a270425.

⁴ Assunção, R. M., M. C. Neves, G. Câmara, and C. Da Costa Freitas. 2006. "Efficient Regionalization Techniques for Socio-economic Geographical Units Using Minimum Spanning Trees." *International Journal of Geographical Information Science* 20 (7): 797–811. doi:10.1080/13658810600665111

⁵ Guo, D. 2008. "Regionalization with Dynamically Constrained Agglomerative Clustering and Partitioning (REDCAP)." *International Journal of Geographical Information Science* 22 (7): 801–23.
Openshaw, S, a L Rao. 1995. "Algorithms for Reengineering 1991 Census Geography." *Environment and Planning A* 27 (3): 425–46. doi:10.1068/a270425.

- 4.15. Yr unig eithriad i hyn yw'r ffiniau Awdurdod Unedol cyfredol yr aseiniwyd pwysoliad yn cyfateb i 10% o'r pwysoliad ar gyfer pob thema iddynt, ynghyd â 10% o'r pwysau cyffredinol i gydnabod pwysigrwydd ffiniau o'r fath o ystyried natur statudol y FfDC.
- 4.16. Hoffai'r awduron ddiolch i Diansheng Guo am ei ohebiaeth a'n helpodd i lywio ein meddyliau ar y broses ranbartholi, er mai ein cyfrifoldeb ni yw'r dull gweithredu a ddewiswyd yn y pendraw.
- 4.17. Cynhyrchodd y broses ranbartholi grwpiau o ddata ar gyfer pob Nod Llesiant. Cafodd pob set ddata ei dadansoddi i nodi dau bwynt allweddol lle ffurfiodd clystyrau sefydlog. Mae'r rhain yn cynrychioli dau bwynt gwahanol lle mae newid amlwg mewn heterogenedd, sy'n awgrymu bodolaeth is-ranbarthau. Mae'r pwynt hwn yn unigryw i bob set ddata ac felly gallai nifer y clystyrau ym mhob thema Llesiant amrywio yn dibynnu ar batrwm y data. Roedd yr is-ranbarthau'n bwysig o ystyried bod y dull gweithredu hwn yn dadansoddi patrymau tebygrwydd, ond wrth feddwl yn fwy cynhwysfawr am y rhanbarthau at y diben o gynllunio mae hefyd yn bwysig ystyried yr angen i gydbwyso rhanbarthau at ddibenion cydraddoldeb.
- 4.18. Mae pwysigrwydd pob Nod Llesiant hefyd wedi'i bwysoli ar sail gwybodaeth yr arolwg. Cafwyd pwyslais cryf ar ardaloedd swyddogaethol yn yr arolwg, felly mae llifau cymudo hefyd wedi'u troshaenu a'u dadansoddi mewn cysylltiad â'r mapiau hyn.
- 4.19. Yna, dangosir pob un o 4 rhanbarth arfaethedig y FfDC. Dewiswyd y 4 rhanbarth yn seiliedig ar gydbwyso'r amrywiad is-ranbarthol â phatrymau rhanbarthol ehangach a ffactorau sefydliadol. Rhoddir manylion pellach am y setiau data a'r pwysoliadau a ddefnyddiwyd yn Adran 7.

6. Crynodeb o'r ymgynghoriad rhanddeiliaid ar-lein

- 6.1. Roedd yr ymchwil yn cynnwys arolwg ar-lein o randdeiliaid allweddol. Ehangodd a datblygodd yr arolwg gydran gydgrynhai gysyniadol yr ymchwil a'r pwysoliadau i'w hasesu i'r dangosyddion meintiol. Helpodd yr arolwg hefyd i ddiffinio'r egwyddorion a ddefnyddiwyd i lywio'r broses o gasglu a dadansoddi data, a'r ystyriaethau cysyniadol a lywiodd y gwaith o nodi ardaloedd rhanbarthol.
- 6.2. Cafodd yr arolwg ei roi ar gael ar-lein a'i ddosbarthu dros e-bost i fwy na 200 o randdeiliaid. Cafodd y rhestr ddosbarthu ei darparu gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys unigolion neu sefydliadau a ddatganodd ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r gwaith o baratoi'r FfDC. Gwnaeth rhai rhanddeiliaid hefyd ddosbarthu'r ddolen i'r arolwg i'w rhwydweithiau eu hunain. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 6.3. Caeodd yr arolwg ar ddydd Sadwrn 18 Mawrth 2017 a chafwyd cyfanswm o 49 o ymatebion. Roedd tua 52% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn neu'n cynrychioli llywodraeth leol. Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys unigolion o sefydliadau elusennol (10%), cyrff proffesiynol (6%), y byd academiaidd (6%) ac amrywiaeth o sectorau eraill, gan gynnwys sefydliadau, busnesau ac ymgynghoriaethau â diddordeb. Cafodd y meysydd pwnc eu cynrychioli'n dda gan gyfranogwyr, gan gynnwys trafnidiaeth, tai, cynllunio a'r amgylchedd. Ymysg y sectorau eraill a gynrychiolwyd yn yr arolwg roedd ynni, mwynau, gwastraff, dŵr, iaith a threftadaeth.

Canfyddiadau allweddol o'r arolwg

- 6.4. Mae'r mwyafrif helaeth o randdeiliaid yn cefnogi cynnwys ardaloedd rhanbarthol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae mwyafrif clir hefyd yn cefnogi nodi ardaloedd rhanbarthol yn y FfDC ar gyfer pob rhan o Gymru yn hytrach na dim ond rhannau o'r wlad.
- 6.5. Mae'r mwyafrif o randdeiliaid o'r farn y gallai'r ardaloedd a ddiffinnir yng Nghynllun Gofodol Cymru ddarparu sail ar gyfer archwilio'r broses o nodi ardaloedd rhanbarthol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen ailedrych ar y diffiniadau o'r ardaloedd hyn i ystyried newidiadau mewn patrymau gweithgarwch a datblygiadau mewn polisïau a fframweithiau ers diwygio Cynllun Gofodol Cymru.
- 6.6. Mae mwyafrif y rhanddeiliaid yn cefnogi nodi ardaloedd rhanbarthol yn seiliedig ar berthnasau swyddogaethol rhwng lleoedd. Gwnaeth y rhanddeiliaid hefyd gydnabod pwysigrwydd diwylliannau a hunaniaethau o ran diffinio ardaloedd rhanbarthol. Cyfleodd y rhanddeiliaid safbwyntiau cymysg ar rôl ffiniau gweinyddol o ran diffinio ardaloedd rhanbarthol. Ni ystyriwyd nodweddion ffisegol yn sail gadarn ar gyfer nodi ardaloedd rhanbarthol.
- 6.7. Nododd rhanddeiliaid farchnadoedd - yn arbennig marchnadoedd llafur a thai - a hygyrchedd a chysylltedd fel perthnasau swyddogaethol allweddol ar gyfer diffinio ardaloedd rhanbarthol.
- 6.8. Gall rhanddeiliaid adnabod 'rhanbarthau' cyfredol yng Nghymru yn hawdd ac maent yn nodi y dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Tueddai'r rhanddeiliaid i nodi rhwng 4 a 6 rhanbarth ledled Cymru, yn dibynnu ar sawl rhanbarth a gydnabyddir yng ngogledd a chanolbarth Cymru.
- 6.9. Mynegodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr ffafriaeth i ffiniau cyffredinol a dangosol dros unrhyw ardaloedd rhanbarthol a nodwyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd y mwyafrif hefyd yn cefnogi'r posibilrwydd o leoli lleoedd mewn mwy nag un ardal ranbarthol. Roedd cyfran debyg o randdeiliaid hefyd yn cefnogi'r syniad o ymestyn ardaloedd rhanbarthol i mewn i Loegr lle bo hynny'n swyddogaethol briodol.
- 6.10. Nododd rhanddeiliaid gyfres o ddehongliadau o'r meini prawf y gellid eu defnyddio i ddiffinio cynnwys y FfDC mewn perthynas ag ardaloedd rhanbarthol. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch yr hyn sy'n pennu p'un a ddelir â rhywbeth yn rhan o ardal ranbarthol o fewn y FfDC.
- 6.11. Yn gyffredinol, ym marn y rhanddeiliaid, rôl ardaloedd rhanbarthol y FfDC yw darparu fframwaith ar gyfer haenau eraill o gynllunio - Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol - a gwneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau o Bwys Cenedlaethol. Mae rhanddeiliaid yn dadlau y dylai unrhyw ardaloedd rhanbarthol a nodir yn y FfDC gael eu halinio'n glir ag Ardaloedd Cynllunio Strategol a nodwyd yn y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.
- 6.12. Nodwyd tai, manwerthu a datblygu masnachol, diogelu tirwedd, gwastraff a'r amgylchedd gan randdeiliaid fel materion 'pwysig iawn' y bydd angen mynd i'r afael â hwy ar gyfer ardal ranbarthol yn y FfDC.

Cynnwys ardaloedd rhanbarthol yn y FfDC

- 6.13. Ceir cefnogaeth glir iawn ymysg tua 87% o'r cyfranogwyr dros gynnwys ardaloedd rhanbarthol yn y FfDC. Mae mwyafrif clir o'r holl gyfranogwyr (68%) yn cefnogi'r cynnig

sy'n nodi y dylid darparu ardaloedd rhanbarthol ar gyfer pob rhan o Gymru, ac y byddai pob man yn cael ei gynnwys mewn ardal ranbarthol, tra bod 19% yn cefnogi ardaloedd rhanbarthol ar gyfer rhannau dethol o Gymru yn unig.

Rolau posibl yr ardaloedd rhanbarthol yn y FfDC

- 6.14. Cyflwynwyd chwe rôl bosibl i'r cyfranogwyr ar gyfer unrhyw ardaloedd rhanbarthol yn y FfDC, a gofynnwyd iddynt sgorio'r rhain yn ôl eu pwysigrwydd. Y rôl a sgoriwyd uchaf o ran ei phwysigrwydd oedd y cynnig y dylai ardaloedd rhanbarthol ddarparu sail ar gyfer dynodi Ardaloedd Cynllunio Strategol a pharatoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Yn ail o ran pwysigrwydd roedd eu rôl yn darparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Bwys Cenedlaethol. Cydnabuwyd bod sicrhau bod ardaloedd rhanbarthol yn darparu cyd-destun ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd yn bwysig.
- 6.15. Cafwyd ymateb mwy cymysg gan gyfranogwyr ar rôl bosibl ardaloedd rhanbarthol y FfDC yn darparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio - roedd 43% o'r cyfranogwyr o'r farn bod hyn yn bwysig iawn neu'n bwysig, tra credai bron 30% nad yw'n rôl berthnasol. Yn gyffredinol, credai cyfranogwyr hefyd fod rôl ardaloedd rhanbarthol y FfDC yn dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth a chydlyniant traws-ffiniol gyda Lloegr yn fater eilaidd.
- 6.16. I grynhui, tybir mai rôl ardaloedd rhanbarthol y FfDC yw darparu fframwaith ar gyfer haenau eraill o gynllunio, a gwneud penderfyniadau ynghylch Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol.

Ardaloedd Cynllunio Strategol ac ardaloedd rhanbarthol y FfDC

- 6.17. Nododd rhanddeiliaid y dylai unrhyw ardaloedd rhanbarthol a nodir yn y FfDC gael eu halinio'n glir ag Ardaloedd Cynllunio Strategol a nodwyd at y diben o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Nodwyd bod aliniad a chysondeb yn arbennig o bwysig. Gallai hyn o bosibl gyfyngu ar y gallu i adlewyrchu ardaloedd rhanbarthol ar sail swyddogaethol yn hytrach na gweinyddol os caiff Ardaloedd Cynllunio Strategol eu seilio ar ffiniau awdurdodau cynllunio lleol.

Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru

- 6.18. Ymatebodd cyfranogwyr i gyfres o gwestiynau ar yr ardaloedd a nodwyd yn flaenorol yng Nghynllun Gofodol Cymru. Nododd y mwyafrif o gyfranogwyr (57%) fod y chwe ardal a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru yn parhau i gynrychioli dehongliad ystyrion o ardaloedd gwahanol Cymru, tra bod 32% yn anghytuno â hynny.
- 6.19. Roedd y canlynol ymysg yr agweddau cadarnhaol neu werthfawr ar y diffiniad o'r chwe ardal:
- Hyrwyddo cydweithredu ar draws ffiniau gweinyddol
 - Cyfleu nodweddion unigryw a gweledigaeth ar gyfer ardaloedd gwahanol o Gymru
 - Mae'r ardaloedd yn rhai amlwg a ddatblygwyd drwy strategaeth ymgysylltu gynhwysol
 - Cydnabyddir y gallai fod angen mynd i'r afael â rhai materion drwy waith lleol ac yn uwch na lefel awdurdod lleol
 - Diffyg ffiniau caled wrth ddiffinio ardaloedd

- Maent yn alinio'n dda â ffiniau eraill, gan gynnwys parthau economaidd ac ardaloedd teithio-i'r-gwaith

6.20. Roedd y canlynol ymysg yr anawsterau neu'r problemau a godwyd:

- Mae'r ardaloedd yn rhai hanesyddol ac mae angen eu hadolygu gan ystyried datblygiad dinas-ranbarthau, trafodaethau ar ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru a newidiadau mewn patrymau gweithgarwch dyddiol
- Ni chafodd cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de eu cyfleu yn glir
- Nid oedd llawer o sylwedd i'r syniadau ar gysylltedd
- Heriau yn adlewyrchu is-ardaloedd canolbarth Cymru
- Methiant i alinio â ffiniau gweinyddol presennol neu gyfrif am Barciau Cenedlaethol
- Sylwadau manwl ar b'un a yw llefydd yn rhan o un ardal neu'r llall
- Ffiniau aneglur a diffiniadau aneglur o ardaloedd
- Diffyg eglurder o ran sut y nodwyd yr ardaloedd hyn

6.21. I grynhoi, noda'r cyfranogwyr fod ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi sail ar gyfer archwilio rhanbarthau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ond eto mae yna ffactorau pwysig sy'n golygu bod angen ailystyried y diffiniadau o ranbarthau i gyfrif am newidiadau mewn patrymau gweithgarwch a'r maes polisi.

Diffinio ardaloedd rhanbarthol

- 6.22. Nododd cyfranogwyr y dylai ardaloedd rhanbarthol fod yn seiliedig ar berthnasau swyddogaethol yn bennaf - nododd 54% o gyfranogwyr mai perthnasau swyddogaethol yw'r ffactor pwysicaf wrth ddiffinio ardaloedd rhanbarthol. Nodwyd bod y perthnasau swyddogaethol hyn yn bwysig ar gyfer adlewyrchu 'sut mae lle yn gweithio' a bod deall y perthnasau hyn yn allweddol i fywyd bob dydd a hyrwyddo ymyriadau llwyddiannus.
- 6.23. Nodwyd bod diwylliannau a hunaniaethau rhanbarthau yn bwysig o ran diffinio ardaloedd rhanbarthol, gyda 44% o gyfranogwyr yn nodi hwn fel yr ail ffactor pwysicaf wrth ddiffinio ardaloedd rhanbarthol. Nododd rhai cyfranogwyr fod diwylliannau trefol a gwledig yn bwysig, ynghyd â nifer y siaradwyr Cymraeg. Nodwyd hefyd fod diwylliannau a hunaniaethau yn newidiol neu'n hyblyg.
- 6.24. Roedd y cyfranogwyr wedi'u rhannu ar bwysigrwydd ffiniau gweinyddol, megis ffiniau awdurdodau lleol, wrth ddiffinio ardaloedd rhanbarthol. Nododd bron 30% o'r cyfranogwyr mai ffiniau gweinyddol yw'r ystyriaeth bwysicaf, tra bod 45% o'r farn mai ffiniau gweinyddol yw'r ystyriaeth lleiaf pwysig. Nododd y sawl oedd o blaid defnyddio ffiniau gweinyddol y defnyddir ardaloedd awdurdod lleol yn aml ar gyfer casglu data, eu bod yn cael eu cydnabod gan breswylwyr a bod ganddynt gysylltiadau da â Chynlluniau Datblygu Lleol a mecanweithiau llywodraethu. Nododd rhai y gall ffiniau gweinyddol gael eu newid i alinio ag ystyriaethau eraill.
- 6.25. Ar y cyfan, nid oedd y cyfranogwyr yn cefnogi defnyddio nodweddion ffisegol fel sail ar gyfer diffinio ardaloedd rhanbarthol. Nododd rhai y gall nodweddion ffisegol a ffiniau ffisegol arwain at gyfyngiadau sylweddol y byddai angen eu datrys, ac nad yw'r rhain yn diffinio ardal yn aml iawn.

- 6.26. I grynhoi, awgryma ymatebion y cyfranogwyr y dylai ardaloedd rhanbarthol gael eu diffinio'n bennaf ar sail perthnasau swyddogaethol, gan hefyd ystyried hunaniaeth a diwylliant.

Perthnasau swyddogaethol pwysig i'w hystyried

- 6.27. Dyma'r perthnasau swyddogaethol pwysicaf y dylid eu defnyddio i ddiffinio ardaloedd rhanbarthol ym marn cyfranogwyr yr arolwg:
- Ardaloedd marchnadoedd llafur a phatrymau teithio-i'r-gwaith
 - Hygyrchedd trafnidiaeth
 - Marchnadoedd tai
 - Cysylltedd, gan gynnwys cyfathrebu digidol a mathau eraill o gyfathrebu
 - Hygyrchedd i wasanaethau allweddol (e.e. gwasanaethau iechyd, darpariaeth addysgol)
- 6.28. Felly, nodwyd gan randdeiliaid fod ardaloedd marchnadoedd a hygyrchedd yn hanfodol i'r diffiniad o ardaloedd rhanbarthol yng Nghymru.

'Rhanbarthau' sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru

- 6.29. Gallai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr nodi o leiaf un ardal yng Nghymru roeddent yn ei hystyried yn 'rhanbarth'. Roedd y rhain yn dueddol o gynnwys y canlynol:
- Cyfranogwyr a ddosbarthodd ranbarthau Cymru i bedair ardal, sef de, de-orllewin, canolbarth a gogledd Cymru;
 - Y chwe ardal a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru;
 - Cyfeiriad at 'ddinas-ranbarthau' Cymru - Bae Abertawe a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd;
 - Dehongliadau amrywiol o ogledd Cymru a ph'un a ydyw'n rhanbarth unigol neu'n cynnwys dau ranbarth gwahanol;
 - Dosbarthiadau gwahanol ar gyfer ardal Cymoedd De Cymru;
 - Cyfeiriad at strwythurau hen siroedd.
- 6.30. I grynhoi, credai'r cyfranogwyr fod gan Gymru 4-6 rhanbarth yn dibynnu ar sut yr ystyrir gogledd Cymru a chanolbarth Cymru. Mae dinas-ranbarthau'n ddatblygiad diweddar pwysig sy'n mireinio'r dull cyffredinol hwn o ddeall rhanbarthau yng Nghymru. Teimlai llawer o'r cyfranogwyr (69%) y dylai'r rhanbarthau y gallent eu nodi gael eu cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Dim ond 2% oedd yn credu na ddylent gael eu cynnwys. Felly, ceir cefnogaeth sylweddol ymysg y cyfranogwyr dros gynnwys y rhanbarthau hyn yn y Fframwaith ar ryw ffurf.

Natur ffiniau rhanbarthol

- 6.31. Nododd bron i ddwy ran o dair (64%) y dylai'r ffiniau rhanbarthol sy'n cael eu cynnwys yn y FfDC fod yn gyffredinol a dangosol; nododd 36% y dylai ffiniau yn y FfDC fod yn glir a manwl.
- 6.32. Un o'r rhesymau dros ffafrio ffiniau cyffredinol a dangosol oedd nad yw perthnasau a rhwydweithiau swyddogaethol yn parchu ffiniau, ac y bydd ardaloedd rhanbarthol yn gorgyffwrdd ar gyfer swyddogaethau gwahanol. Roedd ffiniau cyffredinol a dangosol hefyd yn cael eu cefnogi mewn achosion lle mae ardal yn ffurfio rhan o fwy nag un ardal

swyddogaethol. Dadleuodd y cyfranogwyr hefyd y bydd rhanbarthau'n datblygu ac esblygu a bod ffiniau cyffredinol a dangosol yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i adlewyrchu hyn. Nodwyd hefyd y byddai ffiniau 'aneglur' yn ddefnyddiol wrth awgrymu cryfder amrywiol y perthnasau rhwng ardaloedd craidd a rhai ffiniol.

- 6.33. Ymysg y rhesymau dros ffafrio ffiniau clir a manwl, nodwyd y byddent yn galluogi cynllunio mwy effeithiol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, yn sicrhau bod cyfrifoldebau am gynllunio mewn ardal yn glir ac yn egluro cymhwysedd ar gyfer cymorth grant a chyllid. Cyfeiriwyd hefyd at statws cynllun datblygu'r FfDC a bod angen ffiniau clir yn hyn o beth i sicrhau eglurder ynghylch y defnydd o bolisiâu mewn ardal. Nododd rhai cyfranogwyr hefyd fod sicrwydd yn bwysig i rai rhanddeiliaid a bod ffiniau clir a manwl yn hwyluso hyn.
- 6.34. Hefyd, rhoddodd cyfranogwyr eu barn ar b'un a ddylid gallu lleoli lle mewn mwy nag un ardal ranbarthol - dadleuodd 58% o'r cyfranogwyr y dylai hyn fod yn bosibl, tra bod 31% yn credu na ddylai lle ond gael ei leoli mewn un ardal ranbarthol.
- 6.35. I grynhoi, adlewyrchir cefnogaeth y cyfranogwyr i ddiffinio ardaloedd ranbarthol ar sail swyddogaethol yn eu ffafriaeth i (a) ffiniau cyffredinol a dangosol i ardaloedd ranbarthol, a (b) y gallu i gynnwys lleoedd mewn mwy nag un ardal ranbarthol. Fodd bynnag, ceir rhai pryderon pwysig y dylai fod gan y FfDC - fel cynllun datblygu - ffiniau clir a manwl at ddibenion polisi.

Ffiniau ranbarthol a'r ffin rhwng Cymru a Lloegr

- 6.36. Gofynnodd yr arolwg a ddylai unrhyw ardaloedd ranbarthol a nodwyd yn y FfDC ymestyn i mewn ardaloedd cyfagos yn Lloegr - roedd 56% o blaid hyn a 31% yn erbyn. Mae mwyafrif yr ymatebwyr felly yn cefnogi ymestyn ardaloedd ranbarthol y FfDC i mewn i ardaloedd cyfagos yn Lloegr.
- 6.37. Y rheswm allweddol a nodwyd gan gyfranogwyr o blaid ymestyn ardaloedd ranbarthol y tu hwnt i ffin Cymru ac i mewn i Lloegr yw bod hyn yn adlewyrchu sut mae ardaloedd ranbarthol yn gweithio ac y byddai'n cydnabod arferion byw o ddydd i ddydd fel gwaith a theithio, mynediad i wasanaethau fel darpariaeth iechyd, a bod cysylltiadau swyddogaethol agos iawn rhwng lleoedd ar hyd ffin Cymru ag ardaloedd y tu allan i'r wlad. Byddai angen cydweithredu ar rywfaint o'r seilwaith trawsffiniol a rhai prosiectau eraill, gan gynnwys drwy'r FfDC. Byddai hefyd angen i'r FfDC gydnabod effeithiau cynlluniau a rhaglenni mewn ardaloedd cyfagos yn Lloegr ar ardaloedd yng Nghymru. Dadleuwyd hefyd nad yw'r ffin ei hun rhwng Cymru a Lloegr yn sail gadarn ar gyfer diffinio rhanbarthau.
- 6.38. Dywedodd rhai cyfranogwyr, er bod perthnasau swyddogaethol pwysig yn bodoli ag ardaloedd yn Lloegr ac y dylid cydnabod y rhain yn y FfDC, fod yr angen am eglurder o ran y defnydd o bolisi yn golygu na ddylai rhanbarthau a nodwyd ymestyn y tu hwnt i ffin Cymru. Nodwyd y byddai'r cyfundrefnau cynllunio gwahanol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr hefyd yn broblematig wrth ystyried ardaloedd ranbarthol sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Galwodd y cyfranogwyr am symrlwydd ac eglurder drwy sicrhau bod ardaloedd ranbarthol yn gyffiniol â'r ffin genedlaethol, a dadleuwyd na allai'r polisiâu yn y FfDC ond fod yn berthnasol yn nhiriogaeth Cymru. Soniodd rhai am y safbwyntiau a'r pwysleisiau polisi gwahanol mewn perthynas â chynllunio rhwng y ddwy wlad, ac y gallai hyn arwain at anghytundeb. Soniwyd hefyd am sensitifrwydd gwleidyddol ynghylch cydnabod neu hyrwyddo cysylltiadau â Lloegr ar draul neu ochr yn ochr â chysylltiadau mewnol.

6.39. I grynhoi, ceir cefnogaeth sylweddol i ymestyn unrhyw ardaloedd rhanbarthol y tu hwnt i ffin Cymru, i mewn i ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Ceir cysylltiad cryf rhwng hyn â chefnogaeth cyfranogwyr i ddull swyddogaethol o ddiffinio ardaloedd rhanbarthol. Nododd y rheini sy'n dadlau yn erbyn ymestyn ardaloedd rhanbarthol y tu hwnt i diriogaeth Cymru yr heriau ymarferol o eglurder mewn perthynas â pholisi, cymhwysedd am gyllid a'r broses o wneud penderfyniadau, ac mai'r ffordd orau o ddatrys hyn fyddai cyfyngu ardaloedd rhanbarthol i ffiniau Cymru. Bydd cwmpas a fformat y FfDC ei hun yn pennu'n rhannol ardal briodol ar gyfer ffiniau mewn perthynas â Chymru a Lloegr. Mae'r materion a godwyd yn yr adran hon hefyd yn dangos y dylid ystyried p'un a allai'r FfDC gynnwys rhanbarthau swyddogaethol â ffiniau dangosol yn ogystal â rhanbarthau neu linellau terfyn ar wahân â ffiniau clir at ddibenion polisi. Gallai hyn wneud y ddogfen yn gymhleth.

Meini prawf ar gyfer pennu materion yn ôl ardal ranbarthol yn y FfDC

- 6.40. Gwahoddwyd cyfranogwyr yr arolwg i nodi meini prawf y gellid eu defnyddio i bennu a ddylid cynnwys mater penodol o fewn ardal ranbarthol yn y FfDC. Nododd y cyfranogwyr amrywiaeth o bosibiliadau. Y dull mwyaf cyffredin o ddiffinio 'materion rhanbarthol' oedd na all un awdurdod cynllunio lleol ddelio â mater (rhoddwyd hyn fel enghraifft hefyd i esbonio'r cwestiwn). Roedd y canlynol ymysg yr awgrymiadau amrywiol eraill: mae'r mater yn un trawsffiniol; mae'r mater yn effeithio ar fwy nag un awdurdod cynllunio lleol neu ar lefel uwch na lefel leol o ran y diddordeb ynddo; mae'r mater yn un cyffredin sy'n gynyddol bwysig ar draws awdurdodau cynllunio lleol gwahanol; a fyddai yna fanteision i awdurdodau cynllunio lleol yn gweithio gyda'i gilydd ar fater; canolbwyntio ar 'gynigion datblygu mawr' yn unig, yn gysylltiedig â maint a graddfa datblygiad (e.e. ffyrdd, rheilffyrdd), gwasanaethau iechyd, cynlluniau ynni mawr; mae'r mater yn un 'strategol'.
- 6.41. Felly, mae'r cyfranogwyr wedi nodi cyfres o ddehongliadau cynnil o ba feini prawf y gellid eu defnyddio i ddiffinio cynnwys y FfDC mewn perthynas ag ardaloedd rhanbarthol. Mae hi'n amlwg yn bwysig bod yn glir ynghylch yr hyn sy'n pennu p'un a ddelir â rhywbeth yn rhan o ardal ranbarthol o fewn y FfDC.
- 6.42. Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd nodi pa dasgau y dylai Llywodraeth Cymru eu cyflawni ar lefel ranbarthol o fewn y FfDC os arferir yr egwyddor sybsidiaredd. Diffiniwyd sybsidiaredd yn syml at ddibenion yr arolwg fel tasgau y byddai Llywodraeth Cymru'n eu gwneud na all lefelau lleol o lywodraeth eu perfformio'n effeithiol. Roedd y tasgau neu faterion allweddol a nodwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys:
- Seilwaith allweddol, gan gynnwys trafnidiaeth, cyfathrebu a TG
 - Tai, gan gynnwys gofynion tai
 - Datblygiad economaidd
 - Datblygiadau diwydiannol, manwerthu ac ynni mawr
 - Gwarchod y tirlun
 - Mwynau a gwastraff
 - Dŵr a charthffosiaeth
 - Gwasanaethau iechyd
 - Cynllunio morol
- 6.43. Mae'r adran nesaf yn sôn am sut sgoriodd y cyfranogwyr y rhain a phynciau eraill mewn perthynas â diffinio ardaloedd rhanbarthol.

Pwysigrwydd pynciau allweddol yn y FfDC

6.44. Cyflwynwyd cyfres o bynciau i gyfranogwyr yr arolwg a gofynnwyd iddynt eu sgorio yn ôl eu pwysigrwydd i'r FfDC. Dyluniwyd y data i gefnogi ystyriaeth o'r setiau data a ddefnyddiwyd i nodi ardaloedd rhanbarthol a'r pwysoliadau i'w rhoi iddynt.

6.45. Nodwyd ei bod hi'n 'bwysig iawn' delio â'r pum pwnc canlynol o fewn ardaloedd rhanbarthol y FfDC:

- Datblygiad economaidd
- Seilwaith
- Trafnidiaeth
- Ynni
- Cynllunio arfordirol

6.46. Nodwyd ei bod hi'n 'bwysig' delio â'r pum pwnc canlynol o fewn ardaloedd rhanbarthol y FfDC:

- Tai
- Datblygu manwerthu a masnachol
- Gwarchod y tirlun
- Gwastraff
- Yr amgylchedd

6.47. Nodwyd 'nad yw hi'n bwysig' neu y byddai'n 'amherthnasol' delio â'r pum pwnc canlynol o fewn ardaloedd rhanbarthol y FfDC:

- Dylunio a'r amgylchedd adeiledig
- Amgylchedd adeiledig hanesyddol
- Lles
- Y Gymraeg
- Datgarboneiddio

6.48. Ymysg y pynciau ychwanegol y nododd cyfranogwyr y dylid delio â nhw o fewn ardaloedd rhanbarthol ond na chawsant eu sgorio roedd band eang, teithio llesol, demograffeg a chyflenwad dŵr.

Crynodeb

6.49. Yn gyffredinol, yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae mwyafrif y rhanddeiliaid o blaid cynnwys ardaloedd rhanbarthol:

- sydd wedi'u diffinio ar sail swyddogaethol, a ategir gan ystyriaethau o hunaniaeth a diwylliant;
- sydd â ffiniau cyffredinol a dangosol;
- sy'n cael eu llywio gan, ond nad ydynt yn dilyn, yr ardaloedd a ddiffinnir yng Nghynllun Gofodol Cymru;
- sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu Cymru gyfan;
- sy'n alinio'n agos iawn ag Ardaloedd Cynllunio Strategol.

6.50. Gwnaeth rhanddeiliaid nad oeddent o blaid y pwyntiau hyn godi rhai ystyriaethau pwysig, yn arbennig mewn perthynas â natur ffiniau unrhyw ardaloedd rhanbarthol.

7. Setiau data a phwysoliadau

- 7.1. Gan edrych ar ymchwil flaenorol a'r sylwadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ar-lein, datblygwyd a gwerthuswyd addasrwydd rhestr o setiau data posibl yn seiliedig ar amcanion y prosiect a'r meini prawf a nodir yn Adran 5.4 (gweler Atodiad 3). Mae'r setiau data hyn yn cynnwys, lle y bo'n briodol, ddangosyddion sy'n deillio o'r 46 o ddangosyddion Llesiant cenedlaethol. Aseswyd pob dangosydd o ran argaeledd, graddfa a thelerau trwyddedu a chafodd pob un ei bwysoli'n ddangosol o ran ei bwysigrwydd i ddiffiniad ffin ranbarthol (1 = y lleiaf pwysig i 3 = y mwyaf pwysig). Mae pob set ddata wedi'i haseinio'n ddangosol i Nod Llesiant.
- 7.2. I gyd, dewiswyd 54 o ddangosyddion ar draws yr holl Nodau Llesiant. Golyga argaeledd a phriodoldeb dangosyddion fod gan rai themâu lai o ddangosyddion nag eraill. Mae pob thema yn cynnwys ffiniau Awdurdod Unedol fel dangosydd. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r dangosyddion a'r pwysoliadau a ddefnyddiwyd. Gweler Atodiad 4 am restr fanwl o ddangosyddion a ffynonellau data.

Tabl 1: Crynodeb o ddangosyddion a phwysoliadau

Dangosyddion yn ôl Thema Llesiant	Pwysol iad
Cymru o Gymunedau Cydlynus (Ffigurau 2 a 3)	
Canran y Boblogaeth 65 oed neu hŷn	1
Canran y Boblogaeth <16 oed	1
Amser teithio o ganolfannau poblogaeth rhanbarthol allweddol	3
Dosbarthiad Gwledig/Trefol	2
Ffiniau'r Heddlu	1
Canran sy'n cytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod 'mlaen yn dda gyda'i gilydd yn leol	3
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 20% mwyaf difreintiedig - Diogelwch Cymunedol	2
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Ffigurau 4 a 5)	
Canran y bobl sydd wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol	1
Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau	3
Dosbarthiad Ardal SYG	3
Nifer yr amgueddfeydd o fewn 24km yn y car	2
Cymru Fwy Cyfartal (Ffigurau 6 a 7)	
Dwysedd poblogaeth	1
Ardaloedd Marchnad Rentu Eang	1
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 20% mwyaf difreintiedig - Incwm	3
Canran y boblogaeth a gyflogir yn y sector preifat	1
Gwahaniaeth mewn enillion llawn amser cyfartalog (canolrif) fesul awr rhwng dynion a merched (seiliedig ar breswilydd)	2
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 20% mwyaf difreintiedig - Addysg	1
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 20% mwyaf difreintiedig - Tai	3
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 20% mwyaf difreintiedig - Mynediad i Wasanaethau	3
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang (Ffigurau 8 a 9)	
Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy - Ardaloedd Chwilio Str	2
Lleoliad ynni adnewyddadwy cyfredol ac arfaethedig	3
Canran y Gwastraff sy'n cael ei Ailddefnyddio/Ailgylchu/Compostio	2
Ôl-troed Ecolegol Cymru	3


Cymru Iachach (Ffigurau 10 ac 11)	
Maint y Gofod Hamdden Naturiol Hygyrch ger y cartref (Taith Fer yn y Car)	1
Cyfran y Gofod Hamdden Naturiol Hygyrch ger y cartref (Taith Fer yn y Car) sydd o Ansawdd Uchel	1
Ffiniau Sefydliadau Gofal Sylfaenol Cymru	3
Amser teithio i Adran Damweiniau ac Achosion Brys	3
Canran y bobl sy'n gorfforol actif am fwy na 150 munud yr wythnos	2
Canran y genedigaethau sengl byw â phwysau geni o lai na 2,500g	2
Cymru Lewyrchus (Ffigurau 12 a 13)	
Meysydd awyr	2
Ffiniau Bargeinion Dinesig	3
Poblogaeth diwrnod gwaith fesul dosbarthiad diwydiant A, C, G, J, K, M, N, O, P ac R	1 fesul dosbarth
Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol fesul Pen	
Ystadegau Gweithle Arbennig 2011 (Cymru a Lloegr)	2
Ystadegau Mudo Arbennig 2011 y DU	3
Amcanestyniadau tai	3
Ardaloedd Pwyllgorau Cyd-lywodraethu Arfaethedig	1
	2
Cymru Gydnerth (Ffigurau 14 a 15)	
Ffiniau Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch (CAMS)	1
Cylch 2 Dalgylchoedd Gweithredol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)	2
Parciau Cenedlaethol	3
Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	2
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol	2
Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru	1
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n fwy na 4.25m	2
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	2

7.3. Mae'r dangosyddion a ddewiswyd a'r pwysoliad a roddwyd i bob un yn seiliedig ar yr ymgynghoriad ar-lein ac ystyriaethau eraill a gymerwyd o sgysiau gyda Llywodraeth Cymru ac ymysg y tîm ymchwil. Er enghraifft, nodwyd bod rôl marchnadoedd tai o bwysigrwydd penodol, ac o ganlyniad cafodd dangosyddion mudo a chymudo eu cynnwys o ystyried eu bod yn ddwy nodwedd allweddol y mae marchnadoedd tai yn deillio ohonynt yn draddodiadol.


8. Rhanbarthau fesul Nod Llesiant

8.1. Yn seiliedig ar y pwysoliadau a nodwyd yn Adran 7, defnyddiwyd rhanbartholi i glystyru rhanbarthau â nodweddion tebyg. Ar gyfer pob Nod Llesiant, cyflwynir dau fap. Fel y nodir yn Adran 5.17, mae'r rhain yn cynrychioli dau bwynt gwahanol lle mae newid amlwg mewn heterogenedd, sy'n awgrymu bodolaeth is-ranbarthau newydd. Mae'r pwynt hwn yn unigryw i bob set ddata ac felly gallai nifer y clystyrau rhanbarthol ym mhob thema Llesiant amrywio yn dibynnu ar batrwm y data.


Ffigur 2: Cymru o Gymunedau Cydlynus / 4 Rhanbarth




Ffigur 3: Cymru o Gymunedau Cydlynus / 7 Rhanbarth




**Ffigur 4: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu / 2
Ranbarth**




**Ffigur 5: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu / 6
Ranbarth**




Ffigur 6: Cymru Fwy Cydradd / 4 Rhanbarth




Ffigur 7: Cymru Fwy Cydradd / 6 Rhanbarth




Ffigur 8: Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang / 5 Rhanbarth




Ffigur 9: Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang / 8 Rhanbarth




Ffigur 10: Cymru iachach / 4 Rhanbarth




Ffigur 11: Cymru iachach / 9 Rhanbarth




Ffigur 12: Cymru Lewyrchus / 4 Rhanbarth




Ffigur 13: Cymru Lewyrchus / 8 Rhanbarth



Ffigur 14: Cymru Gydnerth / 4 Rhanbarth



Ffigur 15: Cymru Gydnerth / 9 Rhanbarth



9. Ffiniau rhanbarthol arfaethedig terfynol


- 9.1. Er mwyn pennu'r ffiniau rhanbarthol arfaethedig terfynol, cafodd canlyniadau pob thema Llesiant eu cyfuno a'u pwysoli (Ffigurau 16 a 17). Roedd y pwysoliadau'n seiliedig ar feysydd o bwys a nodwyd gan gyfranogwyr yr ymgynghoriad ar-lein ac ymchwil yn seiliedig ar y mesurau safonol ar gyfer diffinio rhanbarthau. Cafodd y pwysoliadau canlynol eu rhoi ar gyfer dadansoddi rhanbartholi:

Tabl 2: Pwysoliadau a roddwyd i'r map themâu Llesiant cyfunol


Nod Llesiant	Pwysoliad Thema	Cyfran o'r Pwysoliad Cyffredinol
Cymru o Gymunedau Cydlynus	2	14%
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	2	14%
Cymru Fwy Cydradd	2	14%
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	1	7%
Cymru Iachach	1	7%
Cymru Lewyrchus	3	21%
Cymru Gydnerth	3	21%

- 9.2. Wrth bennu'r ffiniau arfaethedig terfynol cafodd ffactorau ychwanegol eu hystyried, yn arbennig rhwydweithiau seilwaith sydd eisoes yn bodoli (ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr), patrymau llif cymudo, strwythurau sefydliadol sydd eisoes yn bodoli (fel Bargeinion Dinesig), a natur statudol y FfDC a allai ei gwneud yn ofynnol bod ffiniau rhanbarthol yn alinio â ffiniau Awdurdodau Unedol cyfredol, yn ogystal â'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng is-ranbarthau gwahanol wrth lunio ardaloedd rhanbarthol.
- 9.3. Er yr angen posibl i alinio â ffiniau Awdurdodau Unedol sydd eisoes yn bodoli, mae'n bwysig nodi ardaloedd trawsffiniol allweddol a chydabod perthnasau swyddogaethol cadarn penodol, yn arbennig ar gyrion Powys a rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot (Ffigurau 18 a 19).


Ffigur 16: Pob Thema Llesiant (Pwysolwyd) / 4 Rhanbarth




Ffigur 17: Pob Thema Llesiant (Pwysolwyd) / 7 Rhanbarth




Ffigur 18: Pob Thema Llesiant (Pwysolwyd) gyda Llifau Cymudo / 7 Rhanbarth




Ffigur 19: Pob Thema Llesiant (Pwysolwyd) gyda Llifau Cymudo ac Ardaloedd Trawsffiniol / 7 Rhanbarth




Ffigur 20: Rhanbarthau Arfaethedig / 4 Rhanbarth




Ffigur 21: Rhanbarthau Arfaethedig gyda Llifau Cymudo / 4 Rhanbarth



Ffigur 22: Rhanbarthau Arfaethedig gyda Llifau Cymudo ac Ardaloedd Trawsffiniol / 4 Rhanbarth



Ffigur 23: Rhanbarthau Amgen Arfaethedig / 4 Rhanbarth



9.4. Cynigir pedair rhanbarth (Ffigur 20):

Tabl 3: Rhanbarthau arfaethedig fesul Awdurdod Unedol


Gogledd Cymru Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	Dwyrain Canolbarth Cymru Powys
De-orllewin Cymru Ceredigion Sir Benfro Sir Gaerfyrddin Abertawe Castell-nedd Port Talbot	De-ddwyrain Cymru Pen-y-Bont ar Ogwr Bro Morgannwg Caerdydd Rhondda Cynon Taf Caerffili Blaenau Gwent Torfaen Sir Fynwy Casnewydd Merthyr Tudful

- 9.5. Dewiswyd y 4 rhanbarth arfaethedig yn seiliedig ar gydbwysu'r amrywiad is-ranbarthol â phatrymau rhanbarthol ehangach, ystyriaethau ecwiti a ffactorau sefydliadol. Yn wahanol i Ranbarth-Ddinesig Bae Abertawe a'r Ardaloedd Pwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd arfaethedig, nodwyd bod Ceredigion yn gysylltiedig â De-orllewin Cymru. Yn y rhan fwyaf o setiau dadansoddi rhanbartholi, mae'r cysylltiad rhwng Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn eithaf cyson, ac felly hefyd y patrymau cyffredinol o lifau cymudo (Ffigurau 21 a 22). Felly, ystyrir Powys yn un ranbarth yn y cynnig hwn.
- 9.6. Fodd bynnag, os penderfynir gan Lywodraeth Cymru na ddylai un awdurdod sengl greu rhanbarth, awgrymir rhoi ystyriaeth i ranbarth sy'n cynnwys Ceredigion a Phowys o ystyried y cysylltiadau gogleddol sy'n bodoli rhwng y ddau Awdurdod Unedol a rhywfaint o'r dadansoddiad rhanbartholi (Ffigur 23). Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu nad yw hyn yn ddelfrydol mewn gwirionedd, a bod y ddau Awdurdod Unedol yn gymharol heterogenaidd. Fodd bynnag, gellid awgrymu y byddai cysylltiad o'r fath yn werth chweil mewn FfDC os mai un o'r nodau yw datblygu cysylltiadau Dwyrain-Gorllewin rhwng Ceredigion a Phowys a Gorllewin Canolbarth Lloegr.


10. Asesu

- 10.1. Nododd Cynllun Gofodol Cymru chwe rhanbarth (Ffigur 24) yng Nghymru. Fe'i cyhoeddwyd 13 blynedd yn ôl, yn 2004, ac fe'i diwygiwyd yn 2008. Mae'r ymchwiliad hwn bellach yn awgrymu bod rhanbarthau mwy o faint yng Nghymru o bosibl yn fwy priodol o ganlyniad i drawsnewidiad ehangach strwythur gofodol y wlad ynghyd ag amrywiaeth o newidiadau sefydliadol, megis cyflwyno Bargeinion Dinesig, y cyfle i nodi Ardaloedd Cynllunio Strategol, a'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, pan nodir is-ranbarthau drwy'r broses ranbartholi, ceir rhywfaint o debygrwydd rhwng y ffiniau CGC blaenorol a'r daearyddiaethau is-ranbarthol allweddol a nodir yn yr ymchwiliad (Ffigur 25).

Ffigur 24: Ardaloedd Rhanbarthol yng Nghynllun Gofodol Cymru a'r Ardaloedd Rhanbarthol Arfaethedig



Ffigur 25: Y Mapiau Llesiant Cyfunol 4 a 7 Rhanbarth



- 10.2. Mae'r ymchwil wedi nodi pedair rhanbarth yng Nghymru sy'n wahanol i'r rheini a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru, ac eithrio De-ddwyrain Cymru. Mae'r saith map Llesiant is-ranbarthol a gyfunwyd ac a bwysolwyd yn cynnwys yr holl ddangosyddion a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hwn, ac mae rhywfaint o debygrwydd ag ardaloedd penodol o'r ffiniau CGC blaenorol, yn arbennig o amgylch Bae Abertawe a De-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae'n wahanol mewn perthynas â Sir Benfro, Sir Fynwy, Canolbarth Cymru a Gogledd-orllewin Cymru. Mae hefyd yn nodi Caerdydd ac Abertawe fel is-ranbarthau ar wahân o gymharu ag Awdurdodau Unedol amgylchynol.
- 10.3. Yn seiliedig ar yr ymchwil hwn, mae'n anodd cyfiawnhau rhanbarth mor fawr yng Nghanolbarth Cymru fel y nodir yn CGC, yn arbennig i'r Gogledd a'r De. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r cysylltiad rhwng Ceredigion a Phowys yn gyson gryf. Byddai hefyd yn anodd cyfiawnhau Sir Benfro fel rhanbarth ar wahân oherwydd ni chafodd Sir Benfro ei hawgrymu fel rhanbarth ar wahân gan unrhyw fapiau a gynhyrchwyd ar gyfer yr ymchwil hwn, a dim ond un o'r mapiau is-ranbarthol awgrymodd hynny.

Atodiad 1: Adroddiad Ymgynghori Rhanddeiliaid (Saesneg gyda'r holl ymatebion)

Atodiad 2: Adroddiad Ymgynghori Rhanddeiliaid (Cymraeg gyda'r holl ymatebion)

Atodiad 3: Setiau Data a Phwysoliadau Posibl

Atodiad 4: Setiau Data, Ffynonellau a Phwysoliadau a Ddefnyddiwyd